

# DOLEN Y TAB 86

17–18 Rhagfyr 2021

## Am 11 fore Sul 19 Rhagfyr

Oedfa gyda'r Twmiaid ac aelodau o'r gynulleidfa – cerddi, ambell gân ac atgofion Nadoligaidd.

**Cofiwch fod angen cofrestru erbyn 6 o'r gloch nos Wener os am fynychu'r cwrdd!**

## YR OEDFAON NESAF

### D.S. Ni chynhelir oedfa fore Sul 26 Rhagfyr

#### Ionawr

- 2 Oedfa Gymun yng ngofal Nia Williams a Geraint Wyn Davies
- 9 Oedfa yng ngofal Eleri Jones a'r Parchedig Aled Edwards
- 16 Oedfa yng ngofal Lowri a Dafydd Roberts a Helen Prosser
- 23 Y Parchedig Gethin Rhys
- 30 Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys ac eraill

#### Chwefror

- 6 Y Parchedig Dyfrig Rees

## Hefyd ddydd Sul 19 Rhagfyr

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Daw oedfa Sul olaf yr Adfent o Lydaw yng nghwmni Lleuwen Steffan.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### 19.00–20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Rhaglen awr i ddathlu'r Nadolig o Eglwys yr Holl Saint, Ystumllwynarth.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Dalier Sylw

Ni chyhoeddir *Dolen y Tab* yr wythnos nesaf gan y byddai'n cwmpo ar Ddydd Nadolig. Felly dyddiad y rhifyn nesaf fydd Gwener 31 Rhagfyr 2021.

## Stori'r Geni

*Tybed ym mha flwyddyn y perfformiwyd stori geni'r Iesu gan blant Ysgol Sul y Tabernacl am y tro cyntaf? Mae'n siŵr y gellir olrhain yr arferiad yn ôl lawer iawn pellach na'r lluniau cynharaf o'r digwyddiad blynyddol sydd i'w gweld yn y gyfrol *Dathlu'r 150*.*

Unwaith eto eleni roedd pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at oedfa Nadoligaidd y plant y Sul diwethaf, ond efallai bod y cyffro disgwylgar hyd yn oed yn fwy y tro hwn o gofio'r siom y llynedd pan oedd drysau'r capel ar gau yn sgil y pandemig. Does dim rhyfedd felly bod pawb wedi eu swyno wrth weld llond llwyfan o angylion bach, bugeiliaid a doethion yn perfformio stori'r geni – y mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan yn nathliadau'r ŵyl am y tro cyntaf. Diolch hefyd i'r 'plant mawr' am fentro dringo grisiau'r pulpud i draddodi naratif y ddrama mor glir.

Wrth dalu'r diolchiadau ar ddiwedd y Gwasanaeth nododd Edwyn, Cadeirydd y Bwrdd, fod gennym le, fel eglwys, i fod yn hynod o ddiolchgar i'r athrawon am eu ffydd a'u holl waith wrth ailsefydlu'r Ysgol Sul ddechrau Medi, i'r rhieni am eu cefnogaeth hwythau ond, wrth gwrs, yn bennaf roedd am ddiolch i'r plant am ailadrodd mewn dull mor egniol y newyddion da am eni'r Iesu ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Ategyd ei neges gan Angharad Haf, mam Teleri ac Elin, pan holwyd hi am yr Ysgol Sul yn gynharach yr wythnos hon, '*Mae'r merched wrth eu bodd ac yn cael gymaint allan o gael mynd. Y ddwy wedi mwynhau canu yn y gwasanaeth Nadolig, a hyd yn oed Elin, sydd ond yn flwydd oed, wrth ei bodd yn mynd lan a lawr i ganu wrth ymyl ei chwaer.*' Newyddion da yn wir oedd derbyn y deyrnged ddiwyll hon i werth yr Ysgol Sul.

## Dymuniadau Gorau

Ers ailagor drysau'r Tabernacl ar ddechrau mis Medi, mae nifer dda o'r aelodau wedi llwyddo i ddod i'r cwrdd yn rheolaidd ar fore Sul. Serch hynny, rydym yn ymwybodol bod nifer ohonoch heb fynychu'r oedfaon naill ai ar sail iechyd neu'r ansicrwydd o fentro i gwrdd dan-do. Carem fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'r gorau i bob un ohonoch dros yr ŵyl, gan obeithio'n fawr y bydd eich iechyd ac amodau'r pandemig yn caniatáu i ni eich croesawu'n ôl yn gynnes i'n plith yn ystod 2021.

**Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda**



## Gwasanaeth Nadolig Y Twmiaid

Dydd Sul Rhagfyr 19eg - 11 o'r gloch

### Y Gair Olaf i Arwyn

Yn y Cwrdd Blynyddol soniais fod costau cynnal y capel yn codi'n flynyddol a gallwn ddisgwyl costau ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf i gynnal ein Cynllun Arloesi a Buddsoddi. Felly, fe apeliais ar yr aelodau i roi ystyriaeth i hyn wrth benderfynu ar lefel eu cyfraniadau tuag at yr achos o hyn allan.

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r Tabernacl (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r platiau casglu, hoffwn eich atgoffa y byddwn yn cau'r llyfrau eleni ar ddydd olaf y flwyddyn. Fe fydd modd i chi gyflwyno eich cyfraniadau ar y platiau casglu a osodir yn y cyntedd yn ystod yr oedfaon ym mis Rhagfyr, neu anfon siec wedi'i chyflwyno i **Capel y Tabernacl Cyf.** at: **Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.**

Os byddwch yn anfon ataf, rhowch y siec mewn amlen wen neu frown, gan nodi eich rhif aelodaeth. Fel arall, gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown, ynghyd â rhoi'ch rhif aelodaeth yn y blwch sy'n gofyn am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: **Capel y Tabernacl Cyf.**  
Cod didoli: **30 – 96 – 72**  
Rhif y cyfrif: **03607499**

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.**

### Meima Morse

Yn y rhifyn cyfredol o *Cennad*, wythnosolyn y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr ([www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)), cyhoeddys ysgrif goffa dwymgalon i Meima Morse, Ton-teg a Llangeitho, gan Lona Roberts. Bydd ei theyrnedd yn siŵr o fod o ddiddordeb i nifer dda o aelodau'r Tabernacl.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)



## Pigion o'r Wasg

### Tywysog Tangnefedd

Yng Nghwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yr wythnos ddiwethaf, cafwyd cyflwyniad diddorol i weledigaeth tîm golygyddol newydd **Cristion**, sef y cylchgrawn deu-fisol lliwgar a chyfoes a gyhoeddir ar ran chwech o enwadau Cristnogol Cymru. Dylan Rhys Parry, gweinidog gofalaeth newydd Glannau Ogwr (sef Tabernaclau Pen-y-bont ar Ogwr a Phorth-cawl) yw un o'r cyd-olygyddion, ac fe agorodd y llen i ni ar eu cynlluniau uchelgeisiol am y blynyddoedd nesaf, sut yr aethpwyd ati i baratoi cynnwys pob rhifyn, a hefyd sut y llwyddwyd i fanteisio ar y cyfryngau newydd i'w hyrwyddo.

Wedi gwrandao ar ddisgrifiad Dylan Rhys o weledigaeth y tri golygydd, rhaid oedd dychwelyd i fwrw golwg unwaith yn rhagor dros rifyn cyfredol **Cristion** (Tachwedd/Rhagfyr). Fel gyda phob rhifyn, mae'r golygyddion yn dewis un brif thema ac yn gwahodd cyfranwyr i lunio erthygl ar y pwnc. Y tro hwn, '*Tywysog Tangnefedd*' oedd y dewis a syndod oedd gweld yr amrywiaeth o gyfeiriadau yr aeth yr awduron ar eu trywydd. Diddorol oedd canfod yn erthygl Dyfrig na chyfeirir unwaith at lesu fel Tywysog Tangnefedd yn y Testament Newydd, a bod yn rhaid mynd yn ôl i gyfnod y proffwyd Eiseia i ddod o hyd i'r teitl (Eiseia 9:6). Syndod hefyd oedd deall o ddarllen erthygl Denzil John y caiff y gair 'heddwch' ei ddefnyddio'n amlach yn yr Hen Destament na'r Newydd ac mai 'atseinio'r syniadau' a geir yn yr Hen Destament a wneir.

Mae'n bosib mai cyfraniad Nia Higginbotham, 'Preseb Gwag?' yw'r un mwyaf annisgwyl. Rydym wedi gweld neu glywed sôn am rai sy'n mynd dros ben llestri adeg y Nadolig wrth addurno eu cartrefi. Ond yng nghartref Nia, casgliad o bresebau wedi eu cerfio sy'n darlunio stori'r geni yw'r unig addurniadau a geir. Mae'r mwyafrif ohonynt wedi eu naddu gan grefftwyr o bren, er bod ambell un o glai, dail, gwllân a hadau. Ond mae un, a luniwyd o bren olewydden gan saer ym Methlehem, yn wahanol iawn i'r gweddill. Yn y cerflun hwn nid y darlun traddodiadol o'r bugeiliaid a'r doethion ar eu gliniau wrth droed y preseb a welwn, gan fod wal wedi'i chodi sy'n rhannu'r llety'n ddau. Diben y wal yw cynrychioli'r gwahanfur 8 metr o uchder a 700 cilomedr o hyd sydd yn cadw Cristnogion Israelaidd a Phalestinaidd allan o Fethlehem heddiw. I Nia, mae'r preseb yma 'yn codi ias' gan ei fod yn ei hatgoffa o'r gormes a'r tlodi a ddiodeffodd y wlad dan yr Ymerodraeth Rufeinig ac o'r angen parhaus i chwalu muriau. '**Nid stori sentimental neis-neis ydy'r Nadolig, ond galwad i weithio – galwad i chwalu muriau er mwyn medru byw gyda'n cymydog.**'